


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 224A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Paul Goodlad o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn llawer o'i amcanion gwella, ond nid yw canlyniadau i ddinasyddion yn gwella'n gyson yr un mor gyflym 8

Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau hunanwerthuso ar gyfer y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau gwella ac mae'r trefniadau ansawdd data yn fwy cadarn 21

Mae'r rhan fwyaf o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant yn parhau'n gadarn ac maent yn dod yn symlach ac yn fwy effeithlon 23

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 27

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 29

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 30

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 32

Atodiad 5
Cynigion neu argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a wnaed i'r Cyngor 34

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer darparu a gwerthuso gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) mewn perthynas â 2012-13 a'i waith cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14. Gan ystyried y rhain, daw'r adroddiad i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Nodwyd, yn 2012-13, fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn llawer o'i amcanion gwella, ond nid yw canlyniadau i ddinasyddion yn gwella'n gyson yr un mor gyflym. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er gwaethaf perfformiad cadarn mewn sawl maes, mae perfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn llawer o'r dangosyddion cenedlaethol wedi dirywio ychydig;
- gwnaeth y Cyngor gynnydd cyson yn erbyn y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau 'economaidd', ond nid oes ganddo drefniadau cadarn ar waith ar gyfer asesu effaith ei weithgareddau;
- er gwaethaf rhai gwelliannau pwysig, nid yw system yr ysgolion uwchradd mor gosteffeithiol ag y dylai fod;
- mae'r Cyngor yn graddol wella gofal cymdeithasol i oedolion a phlant ond mae rhai agweddau ar wasanaethau plant yn dal i fod yn is na'r safon er gwaethaf ymdrechion y Cyngor dros sawl blwyddyn;
- mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn helpu i leihau trosedd ac ofn troseddau ond mae lle i ddangos cynnydd ac effaith yn well;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran rhai agweddau ar y ddarpariaeth Gymraeg ond nid yw wedi cyflawni ei darged ar gyfer cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg eto; ac
- mae'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i'w heriau amgylcheddol ond nid yw ei ymdrechion i ddiwallu anghenion a dyheadau o ran tai lleol wedi cael fawr ddim effaith mewn rhai ardaloedd.

3 Canfuwyd hefyd fod y Cyngor, ar y cyfan, wedi gwella ei drefniadau hunanwerthuso ar gyfer y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau gwella ac mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd data yn fwy cadarn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; ac

- mae camau i wella ansawdd data perfformiad wedi cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu gwybodaeth fwy cywir am berfformiad ac at gyflwyno adroddiadau mwy penodol i gynghorwyr.

4 Yn olaf, canfuwyd, yn ystod 2013-14, fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliannau yn parhau'n gadarn a'u bod yn dod yn symlach ac yn fwy effeithlon. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gwaith Cynllunio Gwelliant y Cyngor yn ystod 2013-14 yn parhau i gynnig cyfeiriad strategol clir i'r Cyngor, er nad yw cynlluniau ar lefel gwasanaeth yn rhoi map llwybr clir ar gyfer llywio'r gwaith o wella gwasanaethau bob amser;
- er gwaethaf yr hinsawdd ariannol heriol mae'r Cyngor yn dal i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol; ac
- mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i adborth drwy atgyfnerthu trefniadau nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol yn flaenorol.

5 Er gwaethaf y trefniadau gwell, mae'r Cyngor yn wynebu'r her o sicrhau bod y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn ei amcanion gwella yn sicrhau canlyniadau llawer gwell i'w ddinasyddion.

6 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15, wrth i'r trefniadau corfforaethol gwell ddechrau cyflawni'r gwelliannau disgwyliedig ym mherfformiad gwasanaethau.

## Argymhellion

7 Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw argymhellion na chynigion newydd ar gyfer gwella. Mae Atodiad 5 yn crynhoi statws ein hargymhellion a'n cynigion blaenorol.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

8 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

9 Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

10 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd. Eleni roedd ein gwaith yn cynnwys asesiad o gynnydd y Cyngor yn erbyn amrywiaeth o ganlyniadau â blaenoriaeth o fewn tair o'i bedair thema strategol:

- **Economi**
  - mae pobl am fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi yma;
  - gall busnesau ymsefydlu a thyfu yma; a
  - gall pobl ffynnu fel unigolion ac o fewn eu cymunedau.
- **Pobl**
  - mae gan bob plentyn a pherson ifanc ddyheadau cadarnhaol, maent yn dysgu ac yn cyflawni eu potensial;
  - mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu;
  - mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac maent yn ddiogel; a
  - hyrwyddir a chefnogir y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- **Lle**
  - cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl; a
  - lle amgylcheddol gyfrifol.

11 Roedd ein hasesiad yn cynnwys adolygiadau bwrdd gwaith o ddogfennau a thrafodaethau â swyddogion ac aelodau etholedig sy’n gyfrifol am gyflawni’r canlyniadau â blaenoriaeth. Lle y bo’n briodol, mae ein hasesiad yn cynnwys barn arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill. O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a’r heriau y mae’r Cyngor yn eu hwynebu, byddai’n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i’r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy’n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae’n rhaid i’r Cyngor baratoi ymateb i’r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

12 Rydym am wybod a yw’r adroddiad hwn yn rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw’n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn llawer o'i amcanion gwella, ond nid yw canlyniadau i ddinasyddion yn gwella'n gyson yr un mor gyflym

## Er gwaethaf perfformiad cadarn mewn sawl maes, mae perfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol wedi dirywio ychydig

13 Adolygwyd perfformiad y Cyngor ar gyfer 2012-13 yn erbyn cyfartaledd Cymru ar gyfer basged o 44 o ddangosyddion cenedlaethol[1]. Er gwaethaf perfformiad cadarn mewn sawl maes, dirywiodd perfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol ychydig. Er enghraifft, yn ystod 2012-13, roedd ychydig yn llai o ddangosyddion wedi gwella neu wedi aros ar lefel y perfformiad gorau posibl (27, o gymharu â 29 yn 2011-12) ac roedd llai o ddangosyddion (18, o gymharu â 22 yn 2011-12) yn hanner uchaf eu tablau perfformiad. Roedd perfformiad y Cyngor yn erbyn ychydig dros hanner y dangosyddion cenedlaethol (24 o 43, lle roedd yn bosibl gwneud cymariaethau) islaw cyfartaledd Cymru. Roedd ei berfformiad ar gyfer 12 o'r dangosyddion yn y chwartel isaf (gwaethaf), o gymharu â 13 yn 2011-12.

14 Nododd Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Berfformiad Awdurdodau Lleol[2], a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, ddirywiad tebyg mewn perfformiad yn ystod 2012-13, ym mhob un o'r meysydd a gwmpaswyd gan yr adroddiad. O'i gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd perfformiad y Cyngor yn y chwartel uchaf neu'r chwartel canol ar gyfer 12 o'r 18 o ddangosyddion. Yn 2011-12, roedd 14 o'r 18 o ddangosyddion yn y chwartel uchaf neu'r chwartel canol. Roedd perfformiad y Cyngor ar gyfer hanner y dangosyddion a gwmpaswyd gan yr adroddiad yn well na chyfartaledd Cymru, a oedd yn welliant bychan o gymharu â 2011-12.

15 Roedd asesiad y Cyngor o gynnydd yn erbyn y 15 o flaenoriaethau gwella yn ei gynllun gwella ar gyfer 2012-13 yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd y canlynol:

- cynnydd da, gyda chanlyniadau a oedd yn gwella yn erbyn naw blaenoriaeth wella;
- rhywfaint o gynnydd, ond dim effaith ar ganlyniadau ar gyfer pum blaenoriaeth wella; a
- chynnydd cyfyngedig yn erbyn un flaenoriaeth wella.

## Mae'r dystiolaeth a adolygwyd gennym yn cefnogi gwerthusiad y Cyngor o gynnydd ar y cyfan

16 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol er mwyn cael barn pobl Cymru ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Dangosodd arolwg 2012-13 fod ychydig dros hanner (51 y cant) o drigolion Wrecsam yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon. Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru (57 y cant) a gosododd berfformiad y Cyngor yn y chwartel isaf o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

1 Tri deg o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau) a 24 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau), y mae 10 ohonynt wedi'u dosbarthu'n DSCau ac yn MACau.

2 Mae'r Adroddiad ar Berfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2012-13 yn dwyn ynghyd y data perfformiad diweddaraf sydd ar gael, y gellir eu defnyddio i gefnogi atebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chraffu arnynt. Y meysydd gwasanaeth a nodir yn yr adroddiad yw Gofal Cymdeithasol, Addysg, Hamdden a Diwylliant, Tai, yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Diogelwch Cymunedol a Lles.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau 'economaidd', ond nid oes ganddo drefniadau cadarn ar waith ar gyfer asesu effaith ei weithgareddau

17 Pennodd y Cyngor dair blaenoriaeth wella allweddol a oedd yn ymwneud â'r economi iddo'i hun, sef:

- mae pobl am fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi yma;
- gall busnesau ymsefydlu a thyfu yma; a
- gall pobl ffynnu fel unigolion ac yn eu cymunedau.

18 Asesodd y Cyngor fod ei gynnydd cyffredinol yn erbyn y meysydd hyn, yn ystod 2012-13, yn 'dda, gyda chanlyniadau sy'n gwella'. Er enghraifft, mae'n nodi bod gwariant gan ymwelwyr â Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Wrecsam) yn fwy na'r targed a bennwyd ar gyfer 2012-13 a bod cyfraddau eiddo masnachol gwag yng nghanol y dref yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Hefyd, helpodd y Cyngor fwy o fusnesau newydd a gwelodd gyfradd feddiannaeth yn ei eiddo masnachol a oedd yn uwch na chyfradd 2011-12.

19 Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar y graddau y mae'r Cyngor yn deall yr effaith y mae ei weithgareddau yn ei chael ar ei flaenoriaethau gwella. Yn gyffredinol, nodwyd y byddai'r Cyngor yn elwa o gael darlun mwy cyffredinol o'i gynnydd. Drwy ategu ei ddata perfformiad lleol ag ystod ehangach o ddata allanol gallai gael cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol cliriach ar gyfer newidiadau o fewn economi Wrecsam.

20 Yn 2013, roedd Wrecsam yn y 295ed safle o blith 379 o ardaloedd ym mynegai cystadleurwydd y DU[3]; yn 2010 roedd yn safle 263. Mae'r dirywiad cymharol hwn mewn cystadleurwydd yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol yng Nghymru, y mae'r Ganolfan Cystadleurwydd Rhyngwladol yn nodi nad yw wedi dangos unrhyw gynnydd yn gyffredinol a'i bod yn parhau i golli tir o gymharu â gweddill y DU. Mae hon yn duedd sy'n peri pryder yng Nghymru yn gyffredinol, nid dim ond yn Wrecsam.

21 Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Medi 2013, cynyddodd cyfran y trigolion economaidd weithgar yn Wrecsam a oedd mewn gwaith[4] ac yn gyflymach na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr. Fodd bynnag, er bod cyfran trigolion Wrecsam sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi parhau i leihau dros y ddwy flynedd diwethaf mae cyfradd y lleihad yn llai na chyfartaledd Cymru sydd bellach ychydig yn llai nag yn Wrecsam. Mae Arddangosyn 1 isod yn ystyried yn fanylach y lleihad hwn yng nghanran y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

3 Rhydd y Ganolfan Cystadleurwydd Rhyngwladol wybodaeth am gystadleurwydd economïau a busnesau. Mae'n cynhyrchu Mynegai Cystadleurwydd y DU, sy'n rhoi data meincnodi ar gystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd y DU. Caiff y Mynegai ei ddiweddaru bob dwy flynedd, fwy neu lai. Digwyddodd hyn yn 2013 ddiwethaf. http://www.cforic.org

4 Canran y trigolion economaidd weithgar, a oedd mewn gwaith, ym mis Medi 2013 (2012): Wrecsam 74.3 (72.1) y cant, Cymru 68.3 (67.1) y cant, Prydain Fawr 71.2 (70.5) y cant. Ffynhonnell: Nomis, gwasanaeth a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhydd fynediad am ddim i'r ystadegau mwyaf manwl a chyfredol ar farchnad lafur y DU o ffynonellau swyddogol. http://www.nomisweb.co.uk/default.asp

22 O’r 10 dangosydd a ddewiswyd gan y Cyngor i ddangos cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau economaidd, dirywiodd ei berfformiad yn erbyn pedwar dangosydd. Dangosodd y gweddill wahanol lefelau o welliant. Mae’r ystod gul o ddangosyddion a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i asesu bod ei gynnydd yn erbyn yr amcan hwn yn ‘dda’ yn awgrymu bod hyder busnesau lleol yn gwella a bod economi Wrecsam yn datblygu ar yr un raddfa, fwy neu lai, â’r economi ledled Cymru. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a geir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, nid yw’r casgliad hwn yn un afresymol. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad o ddata economaidd ehangach yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw effaith mentrau lleol yn Wrecsam lawn mor gadarnhaol ag y mae’r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ei awgrymu.

23 Er bod y Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull meincnodi cyffredinol, mae ei gymariaethau economaidd yn seiliedig ar gyfartaledd Cymru ar y cyfan. Gall y dull meincnodi cyfyngedig hwn – pan fo cronfa ddata ehangach o wybodaeth ar gael yn hawdd – gelu rhai tueddiadau llai ffafriol ac arwain at gasgliadau rhy optimistaidd ynghylch faint o gynnydd sy’n cael ei wneud. Er enghraifft, mae Wrecsam yn rhannu ffin â phum awdurdod lleol arall (tri yng Nghymru, dau yn Lloegr) ac mae’n ddefnyddiol cymharu data economaidd ystadegol ar gyfer yr ardaloedd hyn, yn ogystal â chyfartaledd Cymru. Dengys Arddangosyn 1, er bod canran y bobl sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Wrecsam wedi lleihau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, fod maint y lleihad yn fwy yn ardaloedd awdurdodau cyfagos.

Arddangosyn 1 – Cyfraddau hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (pob person)

| | Ionawr 2012 | Ionawr 2013 | Ionawr 2014 | Lleihad canrannol o fis Ionawr 2012 |
|---|---|---|---|---|
| **Powys** | 2.7% | 2.6% | 1.8% | 33% |
| **Gorllewin Swydd Gaer** | 3.5% | 3.3% | 2.4% | 31% |
| **Sir y Fflint** | 3.5% | 3.3% | 2.7% | 23% |
| **Swydd Amwythig** | 2.7% | 2.6% | 2.1% | 22% |
| **Sir Ddinbych** | 4.6% | 4.5% | 3.7% | 20% |
| **Cyfartaledd Cymru** | 4.3% | 4.2% | 3.5% | 19% |
| **Wrecsam** | 4.2% | 4.1% | 3.6% | 14% |

*Ffynhonnell: Nomis*

24 Mae Arddangosyn 1 yn awgrymu ei bod yn bosibl bod ymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra yn Wrecsam yn cael effaith, ond efallai nad ydynt yn cael cymaint o effaith ag ymdrechion awdurdodau cyfagos. Yn ymarferol, byddai'n amhriodol dod i'r fath gasgliad ar sail un gronfa ddata. Byddai angen dadansoddiad mwy cynhwysfawr o ddata'r farchnad lafur er mwyn llunio barn gadarn ar faint o gynnydd sy'n cael ei wneud. Fodd bynnag, gall dadansoddiad o'r fath nodi cyfleoedd i'r Cyngor ystyried yr hyn yr ymddengys fod ei gymheiriaid yn ei wneud yn well – a rhannu ei brofiad o fentrau sy'n gweithio'n arbennig o dda yn Wrecsam.

25 Er gwaethaf rhai cyhoeddiadau siomedig ynghylch colli swyddi yn Wrecsam – megis mwy na 600 o swyddi parhaol a swyddi gweithwyr asiantaeth yng nghwmni Sharp – mae'r Cyngor yn disgwyl i'r economi elwa o fewnfuddsoddiad sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y buddsoddiad uchaf ei broffil fydd adeiladu carchar ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, y disgwylir iddo greu tua 1,000 o swyddi newydd. Mae nifer o fuddsoddiadau ar raddfa lai hefyd wedi'u cyhoeddi. Er enghraifft, cyhoeddodd JCB gynlluniau i ehangu ei safle trawsyriannau presennol yn Wrecsam yn ddiweddar.

26 Mae cyfran trigolion Wrecsam sydd â chymwysterau yn is[5] nag ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol sy'n ffinio â hi, ar bob lefel o NVQ1 i fyny. Mae hyn yn bwysig gan y bydd diffyg cymwysterau yn aml yn atal pobl rhag cael swydd. Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor a'i bartneriaid yw helpu trigolion lleol i gael y cymwysterau neu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gystadlu'n effeithiol am y swyddi newydd hyn - yn enwedig trigolion di-waith sy'n cystadlu am swyddi lefel fynediad. Heb gymorth priodol i ddinasyddion Wrecsam, mae risg y caiff gormod o swyddi newydd eu rhoi i bobl sy'n byw y tu allan i'r fwrdeistref sirol ac sy'n cymudo i'r gwaith.

27 Mae'r dirwedd economaidd leol yn gymhleth. Mae llawer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar economïau lleol a gall mentrau cymorth busnes gymryd amser hir i ddylanwadu ar ddata'r farchnad lafur. Serth hynny, mae ein dadansoddiad o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn awgrymu y byddai'r Cyngor yn cael budd o fodel monitro mwy cynhwysfawr sy'n meincnodi cynnydd yn erbyn ystod ehangach o gymaryddion. Mae'r data ystadegol ar gael yn eang a, gan amlaf, am ddim. Byddai meithrin dealltwriaeth well o'r hyn sy'n dylanwadu ar yr economi leol a ffyniant trigolion Wrecsam mewn gwirionedd yn atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau ac yn helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ei adnoddau yn fwy effeithiol.

## Er gwaethaf rhai gwelliannau pwysig, nid yw system yr ysgolion uwchradd mor gosteffeithiol ag y dylai fod

28 Mae cyflawniadau sy'n ymwneud ag addysg a nodwyd gan y Cyngor yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ymwneud â lefelau presenoldeb uchel, cynnydd da yn erbyn argymhellion a wnaed gan Estyn a pherfformiad da sy'n gwella mewn ysgolion cynradd. Dangosodd canlyniadau ysgolion uwchradd ar gyfer haf 2012 nad oedd trefniadau gwell wedi dylanwadu ar safonau academaidd eto. Pan gyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol, nid

5 Cyfran y trigolion (rhwng 16 a 64 oed) â chymwysterau ar lefel NVQ1 ac uwch yn 2012: Wrecsam 81.0 y cant, Powys 82.2 y cant, Sir Ddinbych 82.9 y cant, Sir y Fflint 85.1 y cant, Swydd Amwythig 86.1 y cant, Gorllewin Swydd Gaer 89.7 y cant. Ffynhonnell: Nomis.

oedd canlyniadau haf 2013 ar gael, ond roedd y Cyngor yn disgwyl gweld gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau disgyblion 16 oed yng Nghyfnod Allweddol 4.

29 Rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor o berfformiad ysgolion yn 2012. Gwellodd canlyniadau disgyblion o bob oedran yn 2013. Roedd deilliannau ar gyfer disgyblion saith oed ac 11 oed ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ac roeddent yn cyd-fynd yn fras â'r hyn y gellid ei ddisgwyl pan gaiff ysgolion cynradd eu cymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o amddifadedd mewn mannau eraill yng Nghymru.

30 Fel roedd y Cyngor yn ei ddisgwyl, roedd gwelliannau da o ran cyfran y disgyblion 16 oed a enillodd bum gradd TGAU dda neu fwy a'r gyfran a oedd yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg a Saesneg ymhlith eu graddau uwch. Serch hynny, mae canlyniadau yn Wrecsam yn dal i fod gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru yn achos y ddau ddangosydd hyn.

31 Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn canolbwyntio, yn gywir ddigon, ar ddeilliannau mewn ysgolion. Fodd bynnag, ceir nifer o ffactorau a thueddiadau sy'n cyfrannu at y deilliannau hynny, y nodir rhai ohonynt isod.

32 Ni chafwyd unrhyw waharddiadau parhaol o ysgolion yn Wrecsam yn ystod blwyddyn academaidd 2012-13. Fodd bynnag, ers sawl blwyddyn, mae ysgolion wedi gwneud defnydd helaeth iawn o waharddiadau cyfnod penodol fel dull o ymdrin ag ymddygiad gwael. Yn ystod blwyddyn academaidd 2012-13, bu lleihad sylweddol yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol; lleihaodd nifer y gwaharddiadau am bum diwrnod neu lai o 979 yn 2011-12 i 565 a lleihaodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol hwy o 107 i 72.

33 Serch hynny, mae nifer y gwaharddiadau yn dal i fod yn llawer uwch nag mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. Ar gyfartaledd, cafodd bron un o bob 10 disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam ei wahardd yn ystod 2012-13. Mae'n amlwg bod hyn yn tarfu ar eu dysgu.

34 Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor wedi gweithio'n helaeth i ad-drefnu ei ddarpariaeth ysgolion. Canran y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd ym mis Ionawr 2013 oedd 11.4%; dim ond ychydig yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru, sef 10 y cant, ac ymhell islaw cyfartaledd Cymru, sef 16.9 y cant. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd mae bron 23 y cant o leoedd yn wag ac mae gan bedair o'r naw ysgol nifer sylweddol o leoedd wag. Mae hyn yn cyfrannu, yn rhannol, at y ffaith mai cost gros darpariaeth ysgolion uwchradd (p'un a gaiff ei dirprwyo i ysgolion ai peidio, ond heb gynnwys cludiant rhwng y cartref a'r ysgol) yw £5,611 fesul disgybl, y drydedd uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru.

35 Er gwaethaf y costau uchel hyn, mae ysgolion uwchradd yn Wrecsam wedi wynebu anawsterau ariannol sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae arwyddion cadarnhaol bod y sefyllfa ariannol mewn ysgolion bellach yn gwella. Er i dair ysgol ddechrau'r flwyddyn ariannol 2013-14 gyda diffygion ariannol, mae'r diffygion ariannol hyn yn dechrau lleihau, sy'n dangos bod yr ysgolion bellach yn dechrau rheoli o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.

## Mae'r Cyngor yn graddol wella gofal cymdeithasol i oedolion a phlant ond mae rhai agweddau ar wasanaethau plant yn dal i fod yn is na'r safon er gwaethaf ymdrechion y Cyngor dros sawl blwyddyn

36 Mae'r Cyngor yn cydnabod, er iddo wneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn ei flaenoriaeth i sicrhau y 'caiff plant a phobl ifanc eu diogelu', ni wellodd perfformiad yn ystod 2012-13 gymaint ag yr oedd yn ei ddisgwyl. Symleiddiodd y Cyngor rai o'i drefniadau, a helpodd i wella ei berfformiad mewn rhai agweddau ar y gwasanaeth – megis cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau cadarn a welwyd mewn rhai meysydd o wasanaethau plant yn ystod 2012-13, roedd perfformiad cyffredinol yn llai boddhaol; mae chwech o'r 13 o ddangosyddion a ddefnyddiwyd i fonitro perfformiad yn y maes hwn yn dal i fod yn y chwartel isaf. Mae'r Cyngor yn nodi bod diffyg adnoddau i ymdopi â'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ffactor pwysig a oedd wedi cyfrannu at ei danberfformiad yn y maes hwn. Mae'r Cyngor yn nodi bod perfformiad wedi gwella'n sylweddol yn ystod hanner cyntaf 2013-14. Fodd bynnag, nid yw data perfformiad ar gyfer gweddill y flwyddyn ar gael eto ac, felly, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith ymdrechion diweddar i wella perfformiad gwasanaethau plant.

37 Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei flaenoriaeth wella allweddol ar gyfer pobl hŷn – sef sicrhau bod pob person hŷn sy'n agored i niwed yn ddiogel, yn cael yr iechyd a lles gorau posibl ac yn byw bywydau mor annibynnol â phosibl. Mae'r dystiolaeth a gynigiwyd gan y Cyngor yn ategu'r farn hon. Gwellodd perfformiad ar gyfer pob un o'r pum dangosydd a ddefnyddiwyd i ddangos cynnydd a gwnaethant naill ai gyflawni'r targedau a bennwyd ar gyfer 2012-13 neu ragori arnynt. Er enghraifft, gwelwyd lleihad sylweddol yn yr amser y bu pobl yn aros i addasiadau gael eu gwneud ar eu cartrefi a'r amser aros ar gyfer therapi galwedigaethol. Mae'n werth nodi bod y Cyngor wedi gwella'r cymorth y mae'n ei roi i oedolion sy'n agored i niwed er gwaethaf y galw cynyddol a'r disgwyliadau uwch o du defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ymateb diweddar AGGCC i Adroddiad Blynyddol statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn nodi nad yw'r Cyngor wedi bod mor glir ag y gallai fod mewn perthynas â'r meysydd ar gyfer gwella.

38 Ystyriodd ymateb AGGCC y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran gwasanaethau oedolion a phlant. Canfu fod camau gweithredu'r Cyngor wedi galluogi mwy o oedolion yn Wrecsam i barhau'n annibynnol. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig ac mae wedi gwella mynediad at wasanaethau cymorth ac ailalluogi. Mae'r Cyngor yn gwneud mwy i fynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol hefyd. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd o ran cynyddu nifer y cartrefi addas a fforddiadwy ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed. Yn 2011-12, nododd AGGCC fod angen i hyn wella. Mae hynny'n wir o hyd.

39 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Mae adborth ar wasanaethau yn gadarnhaol ar y cyfan a defnyddir y sylwadau i werthuso perfformiad a chymryd camau i wella gwasanaethau. Canfu AGGCC nad yw rhai mentrau ymgysylltu o fewn gwasanaethau plant wedi gwneud cynnydd oherwydd diffyg adnoddau a bod angen gwneud rhagor o gynnydd er mwyn ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ac mae'n cyfrannu at, neu'n arwain, nifer o fentrau rhanbarthol. Nododd yr adolygiad fod ei brif bartneriaid yn ymwybodol o ymrwymiad y Cyngor i weithio mewn partneriaeth. Nododd hefyd fod newid sefydliadol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i effeithio ar allu'r Cyngor i ddylanwadu ar waith cynllunio strategol sy'n canolbwyntiodd ar ardaloedd gyda'r Bwrdd Iechyd.

40 Nododd ymateb AGGCC fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o ddatblygu gwasanaethau gofalwyr a'i fod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran darparu gwasanaethau i ofalwyr sy'n oedolion. Fodd bynnag, nododd hefyd fod angen mwy o waith i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr ifanc, mater yr oedd y Cyngor yn disgwyl rhoi sylw iddo yn ystod gweddill 2013-14. Mae angen gwella amseroldeb adolygiadau hefyd. Yn 2012-13, bu lleihad yn nifer yr oedolion y cafodd eu cynllun gofal ei adolygu. Bu lleihad hefyd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant a gafodd adolygiadau, er bod perfformiad y Cyngor yn dal i fod ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae adolygiadau o blant mewn angen wedi gwella; erbyn hyn mae perfformiad y Cyngor ymhlith y gorau yng Nghymru.

41 Er gwaethaf gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal gwasanaethau plant, mae gwelliannau yn parhau'n araf. Nododd AGGCC fod hwn yn faes ar gyfer gwella. Roedd ansawdd ac amseroldeb asesiadau yn anghyson a phrin oedd y dystiolaeth wedi'i chofnodi o waith dadansoddi risg effeithiol. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad. Er enghraifft, mae angen iddo sicrhau effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn arbennig mewn perthynas â'r rhaglen datblygu gwasanaethau fawr sy'n mynd rhagddi ym maes diogelu oedolion a phlant.

42 Cynyddodd nifer y plant y mae angen gofalu amdanynt yn 2012-13. Er i sefydlogrwydd lleoliadau wella, mae perfformiad y Cyngor yn y maes hwn yn parhau i fod yn wan ac mae anawsterau parhaus o ran recriwtio'r nifer ofynnol o ofalwyr maeth. Nododd AGGCC fod llai o blant sy'n derbyn gofal yn cael cynllun gofal neu gynllun addysg personol ar waith o fewn yr amserlenni gofynnol. Fodd bynnag, mae cyswllt â phlant a oedd yn derbyn gofal wedi gwella. Mae adroddiad AGGCC yn nodi bod dangosyddion perfformiad gwasanaethau plant yn dal i fod yn faes ar gyfer gwella. Er gwaethaf y perfformiad gwell mewn nifer o feysydd yn ystod 2012-13, mae perfformiad yn gyffredinol yn parhau i fod yn wael o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

43 Mae'r Cyngor wedi datblygu dogfennau cynllunio strategol er mwyn rhoi cyfeiriad yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth gwasanaethau i oedolion ond nododd AGGCC fod angen rhagor o waith i gwblhau cynlluniau strategol ar gyfer pob maes gwasanaeth. Canfu AGGCC hefyd fod llai o dystiolaeth am eglurder ac effeithiolrwydd gwaith cynllunio busnes; mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei gynlluniau busnes yn ddigon penodol ac y gellir eu cyflawni er mwyn ysgogi gwelliant.

44 Dengys y Cyngor ymrwymiad parhaus i hyfforddi a datblygu staff gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n ymateb i anghenion gweithredol, a fydd yn helpu i hyrwyddo sefydlogrwydd y gweithlu. Mae'r strategaeth gweithlu gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrin â chynllunio, recriwtio, datblygu a chadw'r gweithlu. Mae'r Cyngor yn nodi bod prosesau recriwtio a chadw staff sy'n gweithio gyda gwasanaethau plant wedi gwella; mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd hyn yn helpu i wella perfformiad adrannol. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i wella prosesau cyfathrebu rhwng aelodau, uwch reolwyr a thimau rheng flaen o fewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae adolygiad o gymorth gweinyddol drwy'r Cyngor cyfan wedi lleihau cymorth busnes mewn rhai meysydd ac wedi codi pryderon o fewn adrannau ynghylch yr effaith bosibl ar berfformiad rheng flaen. Er bod rhai strwythurau i wella trefniadau gweithio rhwng adrannau ar waith, mae angen datblygu'r maes hwn ymhellach o hyd.

## Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn helpu i leihau trosedd ac ofn troseddau ond mae lle i ddangos cynnydd ac effaith yn well

45 Mae helpu pobl i deimlo'n ddiogel yn flaenoriaeth wella ii'r Cyngor. Asesodd fod cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth hon yn dda, yn seiliedig ar ostyngiad parhaus mewn lefelau troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc ac oedolion yn Wrecsam. Dengys yr arolwg o drigolion a gynhaliwyd yn hydref 2013 fod canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel, sef 98 y cant, yn y Fwrdeistref Sirol yn dal i fod yn uchel a'i bod wedi codi o 97 y cant yn 2011. Fodd bynnag, er bod cronfa ddata eang o fesurau canlyniadau ar gael, mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y flaenoriaeth wella hon gan ddefnyddio ystod gul o ddangosyddion. Mae data annibynnol, newydd ar gael i ategu data arolygon lleol ar ofn troseddau a gesglir gan y Cyngor a'i bartneriaid. Er enghraifft, mewn arolwg cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2012-13[8] a oedd yn edrych ar ganfyddiadau pobl o wasanaethau cyhoeddus, nododd trigolion Wrecsam yn gyson eu bod yn teimlo'n llai diogel na'r rhai sy'n byw mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru ac yn llai diogel na'r cyfartaledd cenedlaethol. Caiff yr arolwg cenedlaethol ei ailadrodd yn flynyddol; bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i fonitro newidiadau yng nghanfyddiadau pobl - ynghylch trosedd a materion eraill.

6 Ystyriodd Arolwg Cenedlaethol Cymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, farn tua 14,000 o bobl ledled Cymru. Roedd yr arolwg yn cynnwys pedwar cwestiwn am y graddau yr oedd pobl yn teimlo'n ddiogel: yn y cartref, wrth gerdded yn eu hardal leol ac yn eu tref neu ddinas agosaf gyda'r nos ac wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos.

46 Yn ogystal â'r gweithgareddau a nodir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, bu'r Cyngor yn gweithio'n agos â'r heddlu a'i bartneriaid eraill er mwyn datblygu nifer o fentrau a gyfrannodd at y cynnydd sydd wedi'i wneud. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys y canlynol:

- defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â thueddiadau o ran troseddu a mannau lle y gallai problemau godi'n aml mewn cymdogaethau;
- lleihau nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol, drwy weithio gydag archfarchnadoedd lleol a safleoedd trwyddedig er mwyn atal alcohol rhag cael ei werthu i bobl dan oed ac atal diodydd sy'n cynnwys lefelau uchel o alcohol rhag cael eu gwerthu'n eang; a
- datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er mwyn canolbwyntio ar gysylltu â chymunedau lleol a phroblemau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd yn lle treulio amser yn patrolio.

47 Gyda'i gilydd mae'r mentrau hyn yn rhoi darlun mwy cytbwys o berfformiad na'r hyn a gynigir gan yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Ystyriodd y Cyngor roi rhagor o wybodaeth am lefelau troseddu er mwyn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud, ond mae'n pryderu y gallai hyn fod yn wrthgynhyrchiol i fentrau atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu gwybodaeth fwy ansoddol a darparu sail dystiolaeth fwy cynhwysfawr, fel ffordd o ddangos cynnydd.

48 Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ganlyniad arolygiad llawn ar y cyd o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Canfu arolygwyr fod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol ers yr arolygiad blaenorol yn 2010. Er enghraifft, roedd ymarfer ad-drefnu diweddar wedi cysoni'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid â gwasanaethau ieuenctid, o dan un strwythur uwch-reoli. Roedd hyn yn golygu bod sgiliau arbenigol staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn debygol o gael eu cadw a'u hatgyfnerthu. Roedd y dull gweithredu integredig hefyd yn golygu y byddai cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i lawer o blant a phobl ifanc, ar ôl i'w hymwneud â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddod i ben.

49 Canfu'r arolygiad fod llawer o'r gwaith rheoli achosion o safon uchel a bod defnyddwyr gwasanaethau yn canmol eu hymwneud â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Fodd bynnag, nododd yr arolygiad rai meysydd pwysig ar gyfer gwella hefyd. Er enghraifft, nid oedd y trefniadau llywodraethu yn effeithiol, er gwaethaf gwaith partneriaeth da yn Wrecsam ac ymrwymiad clir i waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Yn benodol, roedd cadernid y gwaith partneriaeth wedi'i danseilio gryn dipyn gan lefelau presenoldeb gwael ar ran rhai partneriaid statudol ym Mwrdd Rheoli'r

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. O ganlyniad, ni allai'r corff hanfodol hwn ddwyn partneriaid i gyfrif nac ychwaith, gan weithredu fel partneriaeth, ddwyn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyfrif. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella effeithiolrwydd y Bwrdd Rheoli.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran rhai agweddau ar y ddarpariaeth Gymraeg ond nid yw wedi cyflawni ei darged ar gyfer cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg eto

50 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

51 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

52 Daeth adolygiad diweddaraf y Comisiynydd o'r trefniadau yn Wrecsam i'r casgliad nad oes digon o staff rheng flaen y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg er mwyn cynnig gwasanaeth hollol ddwyieithog. At hynny, er gwaethaf cynnydd bach, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni'r targed i gynyddu nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant iaith i bob aelod o staff rheng flaen erbyn diwedd y flwyddyn. Prin yw'r cyfleoedd i gynllunio'r gweithlu drwy ymgyrchoedd recriwtio ar hyn o bryd ac, felly, bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg a'i gynllunio'n effeithiol. Nid yw pob contract gwasanaeth trydydd parti yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio ag egwyddorion y Cynllun Iaith. Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau clir er mwyn ymdrin â hyn.

53 Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi gwneud cynnydd da yn ystod 2012-13 yn erbyn ei flaenoriaeth i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn fwy. Er enghraifft, mae mwy o bobl ifanc yn Wrecsam yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae mwy o bobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn dilyn cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith. Yn y gymuned ehangach, mae'r Cyngor yn nodi bod llawer mwy o bobl yn mynd i ddigwyddiadau ac arddangosfeydd diwylliannol Cymreig. Er bod cyfran yr ymholiadau â chanolfan gyswllt y Cyngor a dderbynnir yn Gymraeg yn isel iawn (ychydig dros 1 y cant yn 2012-13) mae'r Cyngor wedi recriwtio nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn ddiweddar, a fydd yn ei helpu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn.

## Mae'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i'w heriau amgylcheddol ond nid yw ei ymdrechion i ddiwallu anghenion a dyheadau o ran tai lleol wedi cael fawr ddim effaith mewn rhai ardaloedd

54 Asesodd y Cyngor iddo wneud cynnydd da o ran sicrhau bod Wrecsam yn lle amgylcheddol gyfrifol ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn ategu'r farn honno. Enillodd y Cyngor Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon yn 2013. Canfu'r Ymddiriedolaeth fod y Cyngor wedi dangos ei fod yn ymateb yn effeithiol i newid yn yr hinsawdd drwy lywodraethu, cyfrifo carbon a rheoli carbon. Yn ystod 2012-13, cwblhaodd y Cyngor ei gynllun i osod paneli solar mewn 2,700 o gartrefi. Hefyd, sicrhaodd gyllid i osod nodweddion arbed ynni megis inswleiddio waliau ceudod a llofftydd mewn tua 400 o gartrefi a helpodd 17 o ysgolion i leihau eu defnydd o ynni. Lleihaodd ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Addysg Pŵer Ysgolion eu defnydd cyfartalog o nwy 6 y cant a'u defnydd cyfartalog o drydan 2 y cant. Oherwydd y tywydd annisgwyl o oer a gafwyd yn ystod y gaeaf ni chyflawnodd y Cyngor ei dargedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, bydd ei fuddsoddiad mewn mentrau effeithlonrwydd ynni wedi helpu i leihau effaith tywydd garw ar y defnydd o ynni.

55 Parhaodd perfformiad y Cyngor o ran ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff cartrefi i wella yn ystod 2012-13, gan gynyddu o 49 y cant i bron 53 y cant a oedd ychydig uwchlaw targed Llywodraeth Cymru, sef 52 y cant. Er gwaethaf y perfformiad hwn, anfonodd y Cyngor 47 y cant o'i wastraff cartrefi i safleoedd tirlenwi yn ystod 2012-13, sy'n cyfateb i bron 95 y cant o'i lwfans tirlenwi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi bod Wrecsam yn un o'r chwe awdurdod â'r lwfans wrth gefn lleiaf i gyflawni eu hymrwymiadau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem bosibl hon drwy ddiwygio ei drefniadau cytundebol ar gyfer gwaredu gwastraff. Mae'n rhagweld y bydd hyn yn lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn sylweddol. Byddai'r diwygiadau hefyd yn helpu'r Cyngor i barhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni targed 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' i sicrhau bod 70 y cant o wastraff yn cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio erbyn 2024-25. Mae adolygiad arfaethedig o wasanaethau gwastraff y Cyngor gan Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), ar ran Llywodraeth Cymru, yn ystyried a oes gan y Cyngor prosesau digonol ar waith er mwyn cyflawni ei dargedau ailgylchu.

56 Mae'r Cyngor yn cydnabod, yn ystod 2012-13, na wnaeth fawr ddim cynnydd yn erbyn ei flaenoriaeth i ddarparu cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl. Er enghraifft, dim ond 21 o gartrefi fforddiadwy newydd a gwblhawyd. Roedd y ffigur hwn gryn dipyn yn llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol a dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol na chyflawnwyd targedau'r Cyngor ar gyfer tai fforddiadwy. Ers 2012-13, mae gweithgarwch adeiladu wedi cyflymu; mae'r Cyngor yn nodi bod 104 o gartrefi fforddiadwy newydd wedi'u cwblhau yn ystod 2013-14, yn erbyn targed o 90 ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae uchelgais y Cyngor i weld 390 o gartrefi fforddiadwy newydd yn cael eu darparu erbyn 2016 yn parhau'n heriol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ddatblygiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt neu y disgwylir iddynt ddechrau yn ystod 2014-15 ddarparu ychydig dros 300 o gartrefi fforddiadwy gyda safleoedd sydd ar y cam cyn cynllunio neu'r cam cyn datblygu yn darparu'r gweddill. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried cyfleoedd i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi o fewn y fwrdeistref sirol. Er enghraifft, efallai y bydd lle i adeiladu mwy o dai cyngor yn dilyn adolygiad o Gymhorthdal y Refeniw Tai. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried creu asiantaeth gosodiadau lleol, er mwyn cefnogi cais y Cyngor am arian benthyg er mwyn annog adnewyddu eiddo gwag yn y sector preifat.

57 Mae rhai cynghorau yn ymateb i heriau tebyg drwy ganolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn y sector preifat, megis rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer tai ar safleoedd maes glas sy'n cynnwys cyfran uchel o dai fforddiadwy. Mae'n bosibl na fyddai hyn yn ateb priodol i Wrecsam, ond gallai ystyried y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd mewn mannau eraill helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau mwy hyddysg. Mae datblygu safleoedd maes glas a digartrefedd yn faterion cynhyrfiol a all ennyn teimladau cryf. Er mwyn datrys y tensiynau rhwng dwy flaenoriaeth a allai wrthdaro â'i gilydd efallai y bydd angen i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau dewr, y bydd angen iddo eu cyfleu'n glir i drigolion

58 At hynny, mae'r sefyllfa yn debygol o fod wedi cael ei gwaethygu gan fethiant y Cyngor i gytuno ar Gynllun Datblygu Lleol. Gwrthododd yr Arolygiaeth Cynllunio y Cynllun Datblygu Lleol gwreiddiol am nad oedd yn cynnwys digon o ddarpariaeth tai preswyl. Mae'r Cyngor bellach yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2028, a fydd yn nodi ei drefniadau ar gyfer cyflawni amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd. Bydd rhoi Cynllun Datblygu Lleol cymeradwy ar waith yn darparu fframwaith cliriach ar gyfer penderfyniadau cynllunio a gallai ategu ymdrechion y Cyngor i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy newydd.

59 Parhaodd hanes gwael y Cyngor o ran mynd i'r afael â digartrefedd yn ystod 2012-13. Ers hynny mae'r Cyngor wedi penodi rheolwr digartrefedd newydd ac wedi atgyfnerthu ei drefniadau; mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn ystod 2013-14. Derbyniwyd llai o bobl yn Wrecsam fel rhai yr oedd angen tŷ arnynt ac fel pobl ddigartref â blaenoriaeth yn ystod 2013-13 a lleihaodd nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro. Fodd bynnag, bu lleihad sylweddol yn hyd yr arhosiad mewn llety dros dro a chyflymder prosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag atal digartrefedd. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ddata perfformiad 2013-14 sy'n gysylltiedig â digartrefedd ddangos gwelliant sylweddol.

60 Er bod gan y Cyngor strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn y terfyn amser, sef Mawrth 2021, mae ei berfformiad hyd yma, ar yr olwg gyntaf, ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Dim ond 155 o gartrefi'r Cyngor (o fwy nag 11,300 o gartrefi) yn Wrecsam a oedd yn cydymffurfio'n llawn â SATC erbyn diwedd 2012-13. Serch hynny, mae'r realiti y tu ôl i'r darlun tywyll hwn, yn ôl y golwg, yn fwy calonogol. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd llawer gwell o ran cyflawni elfennau unigol o'r rhaglen gwella tai . Er enghraifft, erbyn diwedd 2012-13, roedd gan 60 y cant o'r stoc tai systemau gwresogi a oedd yn cydymffurfio â SATC ac roedd 86 y cant mewn cyflwr da. Ond dim ond 39 y cant o gartrefi a oedd yn cynnwys ystafelloedd ymolchi cyfredol a dim ond 5 y cant a oedd yn cynnwys ceginau cyfredol.

61 Canfu arolwg o denantiaid y Cyngor a gynhaliwyd yn 2012 mai dim ond dau o bob tri (68 y cant) a oedd yn fodlon ar gyflwr cyffredinol eu cartrefi. At hynny, roedd llai na dau o bob tri thenant (63 y cant) yn fodlon ar y ffordd yr oedd y Cyngor yn delio â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn eu cartref. Efallai y byddai'n fuddiol i'r Cyngor ystyried pam mae rhai cynghorau yn cael sgorau boddhad llawer uwch gan eu tenantiaid.

62 Mae'r gwaith sydd angen ei wneud o hyd i gyrraedd SATC yn her sylweddol. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi tua £255 miliwn er mwyn cwblhau'r gwaith. Mae buddsoddiad o'r maint hwn yn afrealistig yn y byrdymor, felly mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i denantiaid er mwyn blaenoriaethu gwaith lle mae ei angen fwyaf. Mae'r Cyngor wedi dyrannu mwy na £23 miliwn ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â SATC yn ystod 2013-14 - sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â dyraniadau blaenorol. Mae hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar strategaeth fuddsoddi ar gyfer cwblhau gweddill y gwaith.

7 Er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'n rhaid i dai cymdeithasol fodloni nifer o feini prawf. Er enghraifft, mae'n rhaid i gartrefi fod mewn cyflwr da ac yn ddiogel, mae'n rhaid iddynt gynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi cyfoes a system wresogi ddigonol ac mae'n rhaid iddynt fod yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda. Mae'n rhaid i bob elfen fodloni'r safon dderbyniol ofynnol er mwyn i dŷ gydymffurfio â SATC.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau hunanwerthuso ar gyfer y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau gwella ac mae'r trefniadau ansawdd data yn fwy cadarn

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

63 O dan y Mesur mae'n ofynnol i Gynghorau werthuso eu perfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ei gymharu â pherfformiad cynghorau eraill a chofnodi'r wybodaeth. Rydym yn adolygu pa mor dda y gwnaeth cynghorau gydymffurfio â'r agwedd hon ar y Mesur a'r canllawiau cysylltiedig.

64 Daeth ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2012-13 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae ansawdd cyffredinol Adroddiad Gwella Blynyddol (yr Adroddiad) y Cyngor, sef 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad 2012-13' – wedi gwella. Mae'n ddogfen fwy diddorol na fersiynau blaenorol, er bod lle o hyd i atgyfnerthu rhai agweddau wrth lunio fersiynau dilynol.

65 Mae'r Adroddiad yn rhoi gwerthusiad cynhwysfawr ac, ar y cyfan, gytbwys o gyflawniadau'r Cyngor a'i weithgareddau allweddol yn ystod 2012-13. Mae tanberfformiad yn erbyn targedau lleol allweddol, lle y bo'n briodol, wedi'i nodi'r glir ac mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu'n dda. Mae'r diwyg yn glir, yn hawdd ei ddilyn ac mae'n disgrifio cynnydd y Cyngor yn erbyn pob amcan gwella.

66 Y llynedd, nodwyd gennym fod y Cyngor yn cydnabod bod angen gwella ei ddull meincnodi. Mae'r Adroddiad diweddaraf yn cynnwys gwybodaeth gymharol am bob blaenoriaeth wella, sy'n helpu darllenwyr i gymharu perfformiad y Cyngor yn erbyn perfformiad cynghorau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae lle o hyd i ehangu trefniadau meincnodi'r Cyngor gan ddefnyddio data gan gynghorau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat y tu allan i Gymru.

67 Mae'r Adroddiad yn cynnwys hunanwerthusiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer pob un o'i amcanion gwella. Mae tystiolaeth glir wedi'i chyflwyno ar gyfer pob un o'r gwerthusiadau ac maent yn gytbwys. Mae hyn yn helpu darllenwyr i ddeall sut mae'r Cyngor wedi asesu ei gynnydd cyffredinol. Mae lleiafrif o werthusiadau'r Cyngor yn methu â rhoi disgrifiad digon eang ac ystyrlon o'r gweithgareddau a gyflawnwyd. O ganlyniad, mae'n fwy anodd i'r darllenydd ddeall effaith yr effaith y mae'r gweithgareddau hyn wedi'i chael ar ddinasyddion lleol - sy'n broblem y mae'r Cyngor wedi'i chydnabod ac y mae'n bwriadu mynd i'r afael â hi.

68 Cynhwysodd y Cyngor fanylion ei berfformiad cymharol fel atodiad yn yr Adroddiad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnig fawr ddim eglurhad am y darlun cymysg, heblaw am nodi nad yw'r gyfres o ddangosyddion cenedlaethol yn adlewyrchu'n agos y blaenoriaethau lleol yn Wrecsam. Byddai dadansoddiad mwy cadarn o berfformiad yn erbyn y gyfres o ddangosyddion cenedlaethol wedi bod yn fuddiol; roedd hwn yn gyfle a gollwyd i'r Cyngor esbonio pam roedd ei berfformiad cyffredinol wedi dirywio ychydig.

## Mae'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i wella ansawdd data perfformiad wedi arwain at gynhyrchu gwybodaeth fwy cywir am berfformiad ac at gyflwyno adroddiadau mwy penodol i gynghorwyr

69 Edrychodd ein hadolygiad o'r trefniadau ansawdd data yn 2013 ar ymagwedd y Cyngor at ansawdd data, gan ystyried ei drefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth reoli, sicrhau ansawdd a chyflwyno adroddiadau ar ddata a dangosyddion perfformiad. Canfuwyd bod y Cyngor wedi ymdrin yn foddhaol â gwendidau blaenorol yn ei systemau data a bod trefniadau ansawdd data o fewn y sampl o fesurau a brofwyd gennym yn ddigon cadarn.

70 Yn ystod 2012-13, diwygiodd y Cyngor ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad mewn ymateb i geisiadau gan aelodau etholedig am brosesau cofnodi perfformiad mwy cryno a thryloyw. Hefyd, symleiddiodd brosesau casglu data ac atgyfnerthodd ei drefniadau atebolrwydd. Mae aelodau arweiniol bellach yn cyflwyno papurau pwyllgor ac yn ymateb i ymholiadau ynglŷn â pherfformiad fel mater o drefn. Mae Penaethiaid Gwasanaethau bellach yn cael eu dwyn i gyfrif gan yr Uwch Dîm Arwain o ran ansawdd data perfformiad a gofnodir gan eu hunedau. Mae hyn wedi helpu i annog perchenogaeth o ddata gan benaethiaid gwasanaethau.

71 Hefyd, cyflwynodd y Cyngor ddull tair haen newydd o bennu targedau yn ystod 2013-14. Mae bellach yn categoreiddio pob targed gwella fel naill ai 'Ymestyn' (anelu at welliant sylweddol), 'Gwella' (gwella yn unol â chyfartaleddau sectorau) neu 'Cynnal' (cynnal perfformiad ar lefelau 2012-13). Dylai tryloywder o ran lefel yr uchelgais ym mhob maes o weithgareddau'r Cyngor helpu'r Aelodau i wybod pryd y dylid dathlu perfformiad da a phryd y dylid herio tanberfformiad.

# Mae'r rhan fwyaf o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant yn parhau'n gadarn ac maent yn dod yn symlach ac yn fwy effeithlon

## Mae gwaith Cynllunio Gwelliant y Cyngor ar gyfer 2013-14 yn parhau i gynnig cyfeiriad strategol clir i'r Cyngor, er nad yw cynlluniau ar lefel gwasanaeth yn rhoi map llwybr clir ar gyfer llywio'r gwaith o wella gwasanaethau bob amser

72 Ym mis Mai 2012, mabwysiadodd y Cyngor a oedd newydd ei ethol yn ffurfiol Gynllun y Cyngor a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2012-16. Hwn yw cynllun strategol cyffredinol y Cyngor. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn diweddaru'r Cynllun ac yn mabwysiadu'r Blaenoriaethau Gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ffurfiol.

73 Yn ystod haf 2013, adolygwyd y fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2013-17 (y Cynllun), er mwyn asesu a oedd yn cydymffurfio â'r Mesur a Chanllawiau cysylltiedig. Cadarnhaodd ein hadolygiad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

74 Cryfderau mwyaf y Cynllun yw ei gynllun deniadol a'i ddull cyfathrebu syml ac uniongyrchol. Mae'r Cynllun yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn glir ac yn gryno ac yn esbonio sut mae'r blaenoriaethau yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn ogystal â barn y Cyngor a'i bartneriaid. Hefyd, lluniodd y Cyngor fersiwn cryno byrrach a fersiwn mwy cryno byth, sef y 'Short and Snappy Version', a ddatblygwyd mewn ymateb i gais gan Senedd yr Ifanc. At hynny, bu'r Cyngor yn gweithio gyda grŵp anableddau dysgu lleol er mwyn datblygu fersiwn hawdd ei ddarllen.

75 Crisialodd y Cyngor bob un o'i 15 Amcan Gwella mewn ymadroddion byr, beiddgar megis 'Gall pobl ffynnu fel unigolion ac yn eu cymunedau' a 'Mae pob person yn cael ei alluogi i wneud dewisiadau iach'. Mae'r amcanion hyn yn uchelgeisiol o ran eu cwmpas, yn arbennig am fod llawer yn gofyn am weithio mewn partneriaeth. Ar gyfer 2013-14, diffiniodd y Cyngor ei ddisgwyliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn gliriach drwy ddewis nifer fach o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer y rhan fwyaf o'i Amcanion Gwella. Wrth bennu targedau ar gyfer y dangosyddion hyn, ystyriodd y Cyngor berfformiad cyfredol a blaenorol ac mae bellach yn fwy penodol o ran lefel yr uchelgais ar gyfer pob dangosydd.

76 Mae lle o hyd i'r Cyngor ddatblygu cyfres o fesurau llwyddiant sy'n adlewyrchu'r canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni yn llawn, yn arbennig yr effaith y mae ei weithgareddau yn ei chael ar ddinasyddion Wrecsam. Mae rhai o'r dangosyddion a ddefnyddir i ddangos cynnydd wedi'u dewis am eu bod yn gyfleus ac ar gael, ac nid am eu bod yn adlewyrchu'n benodol gynnydd neu effaith yn erbyn y canlyniad arfaethedig. Nid yw'r gwendid hwn yn unigryw i Wrecsam. Mae'r her o ddatblygu cyfres ystyrlon o ddangosyddion yn un sy'n cael ei hwynebu gan y rhan fwyaf o gyrff yn y sector cyhoeddus.

77 Er bod gan y Cynllun lawer o gryfderau o ran y ffordd y mae'n cyfleu gweledigaeth y Cyngor, er mwyn ei gyflawni'n llwyddiannus bydd angen sicrhau ansawdd y trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau ac adnoddau sydd wrth wraidd y Cynllun. Ar

adeg ein hadolygiad, nodwyd bylchau ym mhrosesau cynllunio busnes adrannau. Mae hynny'n wir o hyd.  Er bod cynlluniau busnes bellach ar waith mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen rhagor o waith er mwyn sicrhau bod rhai cynlluniau adrannol yn fwy cadarn, fel y byddant yn datblygu'n adnoddau effeithiol ar gyfer llywio'r gwaith o wella gwasanaethau.

## Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol heriol mae'r Cyngor yn dal i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol

78 Mae'r Cyngor yn parhau i bennu a rheoli ei gyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa yn y tymor hwy a chafwyd cyfeiriadau cadarnhaol at y dull gweithredu hwn ers peth amser bellach. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn wynebu her sylweddol yn dilyn newidiadau sylfaenol yn yr hinsawdd ariannol.

79 Er gwaethaf setliad grant heriol iawn ar gyfer 2014-15, mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her. Yn unol â'i Fframwaith Polisi Cyllidebol sefydledig, datblygodd y Cyngor amrywiaeth o gynigion cyllidebol a oedd yn adlewyrchu Cynllun y Cyngor a'i flaenoriaethau. Ar ôl darparu ar gyfer cynnydd o 3 y cant yn y Dreth Gyngor, nododd y Cyngor fod angen arbed £10.8 miliwn, mater y mae wedi mynd i'r afael ag ef ers hynny. Ar ôl ymgynghori'n eang ynghylch y cynigion drafft, pennodd y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2014.

80 Yn y tymor canolig, bydd angen i'r Cyngor ddelio â diffyg cyllidebol amcangyfrifedig o £45 miliwn o leiaf dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys diffyg amcangyfrifedig o £8.2 miliwn yn 2015-16. Mae'r Cyngor eisoes wedi nodi arbedion o £4.2 miliwn er mwyn ymgynghori yn eu cylch ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â gweddill y diffyg ariannol. Mae'r Cyngor yn datblygu rhaglen pum mlynedd i wella effeithlonrwydd ac ad-drefnu ei wasanaethau er mwyn ateb yr her ariannol. Mae wedi rhoi Rhaglen Newid ar waith er mwyn goruchwylio'r broses hon, gan gynnwys datblygu dull cynlluniedig o leihau ei weithlu.

## Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i adborth drwy atgyfnerthu trefniadau nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol yn flaenorol

81 Nododd ein llythyr ym mis Medi 2013 fod y Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus drwy ei waith i gyflawni Cynllun 2013-14. Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad ei fod o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2013-14.

82 Ers mis Medi 2013 rydym wedi cynnal adolygiad pellach o gynnydd y Cyngor yn erbyn argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a ddeilliodd o'n gwaith cynharach. Rydym hefyd wedi diweddaru ein hasesiad o drefniadau rheoli ariannol y Cyngor.

83 Nododd ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2013 gyfanswm o 11 o argymhellion a chynigion blaenorol ar gyfer gwella nad oedd y Cyngor, bryd hynny, wedi ymdrin â hwy yn llawn. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng rhai o'r gwelliannau gofynnol; rydym wedi dosbarthu'r rhain i bum maes cyffredinol ar gyfer gwella. Trafodir cynnydd yn erbyn y meysydd hyn isod ac fe'i crynhoir yn Atodiad 5:

- **Cynllunio Gweithlu Corfforaethol**: Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu dull corfforaethol o gynllunio'r gweithlu Mae wedi rhoi system Adnoddau Dynol a Chyflog integredig ar waith ac wedi ymgorffori gwaith cynllunio'r gweithlu yn ei broses gwasanaethau flynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau wedi'u hymgorffori'n llawn eto, felly mae ein cynnig ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored. Byddwn yn ailystyried y pwnc hwn yn ystod 2014 er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig a nodi a yw'r manteision disgwyliedig wedi'u sicrhau.

- **Diwallu anghenion tai**: Nid yw'r Cyngor wedi gwneud fawr ddim cynnydd yn erbyn y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mewn rhai ffyrdd, mae'r sefyllfa wedi dirywio ers i ni wneud y cynnig gwreiddiol. Nid yw targedau ar gyfer tai fforddiadwy wedi'u cyflawni am y tair blynedd diwethaf ac erys heriau sylweddol cyn y bydd y stoc tai yn cydymffurfio'n llawn â SATC. Mae'r cynnig ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored a byddwn yn parhau i adolygu cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.

- **Gwella a symleiddio prosesau busnes**: Mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefniadau mwy cadarn ar gyfer ansawdd data, pennu targedau, rheoli perfformiad a monitro a chraffu. Mae'r newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd y Cyngor. Mae'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn bellach wedi'u cau. Mae angen i'r Cyngor barhau i fireinio a datblygu ei brosesau busnes mewn ymateb i bwysau mewnol ac allanol o hyd.

- **Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid a rhoi Adborth iddynt**: Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran y ffordd y mae'n ymgysylltu â'i randdeiliaid, yn ymgynghori â hwy ynghylch materion pwysig ac yn rhoi adborth ar y ffordd y mae wedi ymateb i'w sylwadau. Mae ei 'Strategaeth Deall ac Ymateb i Ddinasyddion' a'i adroddiad blynyddol 'Rydym yn Gwrando' yn darparu fframwaith cadarn i helpu pobl i ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a dylanwadu arnynt. Mae'r cynigion ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn bellach wedi'u cau. Efallai y bydd defnydd parhaus effeithiol o'r trefniadau newydd yn helpu'r Cyngor i drawsnewid yr hyn a oedd yn faes gwendid yn flaenorol yn gryfder corfforaethol.

- **Eglurder a ffocws ar flaenoriaethau a chanlyniadau**: Diwygiodd y Cyngor ei gyfres o flaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 ymlaen a datblygodd gyfres fwy ystyrlon o fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, y mae bellach yn eu defnyddio i fonitro cynnydd. Ymdriniodd y diwygiadau â'n pryderon gwreiddiol, felly mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'u cau. Fodd bynnag, mae lle i'r Cyngor barhau i fireinio rhai o'i fesurau canlyniadau, fel y bydd yn gallu dangos cynnydd yn erbyn pob un o'i flaenoriaethau gwella yn fwy effeithiol.

84 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol ac adrannol. Er gwaethaf y buddsoddiad hwn, nid yw perfformiad cyffredinol y Cyngor wedi gwella gymaint ag yr oedd yn ei ddisgwyl, er ei fod yn parhau i wneud cynnydd clir yn erbyn ei amcanion gwella. Mae'r Cyngor yn wynebu'r her o sicrhau bod y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn ei amcanion gwella yn sicrhau canlyniadau llawer gwell i'w ddinasyddion.

## Mae’r Cyngor mewn sefyllfa dda i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

85 Ar sail y casgliadau a amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cred Archwilydd Cyffredino Cymru fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £292 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,158 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu gwario £33 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn Wrecsam oedd £1,166 y flwyddyn. Cynyddodd hyn 2.96 y cant i £1,200 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 72.6 y cant o dai Wrecsam yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 52 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Arweinydd y Cyngor yw Neil Rogers. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 23 Llafur
- 10 o Aelodau Annibynnol Democrataidd
- 10 o Aelodau Annibynnol Wrecsam
- 5 o'r Blaid Geidwadol
- 4 o Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol

Prif Weithredwr y Cyngor yw Dr Helen Paterson. Fe'i cefnogir gan dri Chyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad, sef: Clare Field, Philip Walton a Lee Robinson.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Wrecsam yw:

- Llyr Huws Gruffydd, Gogledd Cymru, Plaid Cymru
- Lesley Griffiths, Wrecsam, Plaid Lafur Cymru
- Mark Isherwood, Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Gogledd Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach,  Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
- Ken Skates, De Clwyd, Plaid Lafur Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Wrecsam yw:

- Susan Elan Jones, De Clwyd, y Blaid Lafur
- Ian Lucas, Wrecsam, y Blaid Lafur

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.wrexham.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY.
Rhif Ffôn: 01978 292000

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Neil Rogers - Arweinydd
Dr. Helen Paterson – Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Annwyl Gynghorydd Rogers a Dr Paterson

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013, rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013. Daeth fy adroddiad i'r casgliad bod y Datganiad Cyfrifon wedi'i baratoi i safon dda. Nodais hefyd nifer o faterion ychwanegol er mwyn helpu'r Cyngor i atgyfnerthu ei systemau rheolaeth fewnol ymhellach. Rhannwyd y materion hyn â Phennaeth yr Adran Gyllid ar 8 Tachwedd 2013.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**
Cyfarwyddwr

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
26 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn *Cynllun y Cyngor 2013-17*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.wrexham.gov.uk. Nid yw'r amcanion gwella wedi newid ers 2012-13 ac maent yn seiliedig ar bedair thema strategol, sef:

**Thema Strategol: Economi**

- Mae pobl am fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi yma
- Gall busnesau ymsefydlu a thyfu yma
- Gall pobl ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau

**Thema Strategol: Pobl**

- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc ddyheadau cadarnhaol, maent yn dysgu ac yn cyflawni eu potensial
- Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu
- Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac maent yn ddiogel
- Caiff pob person ei alluogi i wneud dewisiadau iach
- Mae pob person hŷn sy'n agored i niwed yn ddiogel, yn cael yr iechyd a lles gorau posibl ac yn byw bywydau mor annibynnol â phosibl
- Hyrwyddir a chefnogir y Gymraeg a diwylliant Cymru

**Thema Strategol: Lle**

- Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl
- Lle amgylcheddol gyfrifol
- Cymunedau lle y ceir aneddiadau, cymdogaethau, adeiladau a mannau cynaliadwy a deniadol
- Cymunedau â chysylltiadau da

**Thema Strategol: Trefniadaeth**

- Cwsmeriaid bodlon sy'n cyfranogi
- Creu'r Amodau ar gyfer Llwyddiant

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Nodir hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn *Canolbwyntio ar ein Perfformiad 2012-13*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.wrexham.gov.uk.

# Atodiad 5
# Cynigion neu argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a wnaed i'r Cyngor

Yn ystod ein gwaith ers 2010, rydym wedi gwneud cynigion neu argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wedi ymdrin yn foddhaol â'r rhan fwyaf o'r rhain, neu wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'r rhain. Nodir isod statws argymhellion neu gynigion cynharach ar gyfer gwella, na nodwyd eu bod yn gyflawn yn flaenorol. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion neu'r argymhellion ar gyfer sy'n weddill o dan ein rhaglen waith yn y dyfodol.

| Asesiad corfforaethol rhagarweiniol 2010 | | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| C3 | Datblygu trefniadau cynllunio gweithlu corfforaethol. | Gwnaed cynnydd da, ond mae angen rhagor o waith er mwyn sicrhau bod trefniadau cynllunio gweithlu wedi'u hymgorffori'n llawn.<br>Mae'r cynnig ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored.<br>Byddwn yn adolygu cynnydd yn erbyn y cynnig hwn yn ystod 2014. |
| C5 | Parhau i wella prosesau busnes drwy symleiddio trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi rheoli, monitro a chraffu effeithiol. | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau; dylai'r Cyngor barhau i ystyried cyfleoedd i atgyfnerthu ei brosesau busnes. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol 2011** | | **Statws Cyfredol** |
| C1 | Sicrhau nad yw ffocws blaenoriaethau'r Cyngor mor gul fel na chaiff lawer o effaith ar y materion ehangach y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. | Mae'r Cyngor wedi ehangu ffocws ei flaenoriaethau er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin â'r meysydd sy'n achosi'r pryder mwyaf a nodwyd gan ei ddinasyddion. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau. |
| C2 | Datblygu dull gweithredu cyson wrth bennu targedau mewn meysydd lle mae angen gwelliant fel cydnabyddir mai nod y targedau yw llywio gwelliant ac na chânt eu cyflawni o bosibl. | Mae'r Cyngor wedi cyflwyno dull mwy cyson a thryloyw o bennu targedau. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau. |
| C3 | Dangos sut y defnyddir ymgynghoriadau ac adborth defnyddwyr a thrigolion i wella gwasanaethau. | Mae'r Cyngor wedi dangos yn foddhaol sut mae'n defnyddio ymgynghoriadau ac adborth defnyddwyr a thrigolion i wella gwasanaethau. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau. |

| Llythyr diweddaru'r asesiad corfforaethol 2011 | | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| A1 | Dylai’r Cyngor amlinellu’r trefniadau i adolygu trefniadau craffu a gwneud penderfyniadau a symleiddio prosesau busnes sy’n cyflymu’r newid angenrheidiol i fynd i’r afael â’r materion hyn. | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae'r argymhelliad wedi'i gau. Serth hynny, dylai'r Cyngor barhau i ystyried cyfleoedd i atgyfnerthu ei brosesau busnes. |
| C1 | Cwblhau’r broses o ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer ei flaenoriaethau gwella, a defnyddio adroddiadau ar berfformiad i nodi cynnydd o ran cyflawni canlyniadau. | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau. Serch hynny, dylai'r Cyngor barhau i fireinio'r ffordd y mae'n dangos effaith ei waith. |
| C2 | Gwella effeithiolrwydd gwaith ymgysylltu â’r cyhoedd, a datblygu dull gweithredu mwy cydlynol ym mhob rhan o’r Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau. Serth hynny, dylai'r Cyngor barhau i fireinio ei drefniadau ymgysylltu. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol 2012** | | **Statws Cyfredol** |
| C3 | Sefydlu ac ymgorffori yn nhrefniadau’r Cyngor ddulliau cadarn o wneud y canlynol:<br>• asesu a yw’r cyhoedd yn ei chael hi’n hawdd cael gafael ar wasanaethau a chymryd camau i wella hygyrchedd y gwasanaethau lle y bo angen;<br>• ymgysylltu â’r cyhoedd a defnyddio’r wybodaeth hon i wneud y canlynol;<br>• datblygu cynlluniau a gwasanaethau’r Cyngor yn y dyfodol; a<br>• darparu adborth prydlon i’r cyhoedd a, lle y bo’n briodol, grwpiau penodol o gwsmeriaid, ar ganlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus a’r camau a gymerwyd gan y Cyngor yn sgil yr ymgynghoriadau hynny. | Mae’r Cyngor wedi cymryd camau i ddarparu adborth prydlon er mwyn gwella hygyrchedd gwasanaethau a defnyddio canlyniadau ymgynghoriadau i atgyfnerthu trefniadau a phrosesau darparu gwasanaethau. Mae’r cynnig ar gyfer gwella wedi’i gau. Serth hynny, dylai’r Cyngor barhau i ystyried cyfleoedd i wella ei weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfniadau adborth. |
| C4 | Adolygu ei strategaeth i ddiwallu anghenion tai lleol drwy ddarparu tai fforddiadwy, gwella ansawdd ei stoc tai a rhoi cymorth i’r digartref. | Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae hwn yn dal i fod yn faes ar gyfer gwella; mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored. |
| C5 | Mynd i’r afael â gwendidau o ran pennu targedau, ansawdd data a threfniadau rheoli perfformiad, a galluogi’r Cyngor i gynnal a chyhoeddi asesiadau cadarn o’i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae'r cynnig ar gyfer gwella wedi'i gau. Serth hynny, dylai'r Cyngor barhau i ystyried cyfleoedd i wella cadernid ei drefniadau asesu perfformiad. |

| Llythyr 2 2013: | | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| A1 | Gweithredu cynigion ar gyfer gwella prosesau rheoli ansawdd gwaith casglu, dadansoddi a chofnodi data a sicrhau bod hyn yn cael ei ategu gan fframwaith sicrwydd rheolaethau digonol. | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae'r argymhelliad wedi'i gau. Serch hynny, dylai'r Cyngor sicrhau bod ei fframwaith sicrwydd rheolaethau yn parhau i fod yn addas at y diben. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk